**21 CHWEFROR 2012**

**CYWIRIAD**

**AROLWG 2013 O ETHOLAETHAU SENEDDOL – CYNIGION CYCHWYNNOL**

Mae'r Cywiriad hwn yn ymwneud â'r Cynigion Cychwynnol dan Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012 gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru (y Comisiwn). Mae'r cyhoeddiad i'w weld ar wefan y Comisiwn, sef www.comffin-cymru.gov.uk.

Hoffai'r Comisiwn gywiro'r hyn a ddatganwyd yn yr adroddiad cynigion cychwynnol mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside. Ym mharagraff 6.146, dywed y Comisiwn "roedd Yr Wyddgrug yn rhan o hen ranbarth Alun a Glannau Dyfrdwy". Bwriad hyn oedd cyfeirio at y sefyllfa ym 1973, pan ffurfiwyd y rhanbarth dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mewn gwirionedd, nid yw'n gywir bod Yr Wyddgrug yn rhan o'r rhanbarth hwnnw a hoffai'r Comisiwn ymddiheuro am y camgymeriad hwn.

Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ffactor penderfynol ar gyfer creu'r etholaeth arfaethedig hon. Trwy gynnwys Yr Wyddgrug a'r adrannau etholiadol i'r de a'r dwyrain o'r Wyddgrug, byddai hyn yn creu etholaeth a fyddai o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Ar ben hynny, byddai'n cynnwys adrannau etholiadol sydd i gyd yn rhan o Sir y Fflint.

Mae cynigion cychwynnol y Comisiwn ar agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus hyd 4 Ebrill 2012.

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE
Ffôn: +44 (0)29 20395031
Rhif ffacs: +44 (0)29 20395250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012